

**CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PHARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 2) 2021**

1. Ar 8 Mehefin 2021 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y cyfyngiad parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 14 Mehefin 2021 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd yn cael eu rhoi yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) Diwygiad) (Rhif 2) 2021".
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn ynghyd â chynlluniau sy'n dangos yr ardal oedd yr effeithir arnynt yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa arferol.
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 14 Mehefin 2021, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a
Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013
ATODLEN**

Insert into Map Schedule AY49

**Gorchymyn Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg Arfaethedig
Porthkerry Road, y Barri**

Ar ochr y de, o'r gyffordd â Romilly Road tua'r de-orllewin am oddeutu 30 metr.

Ar ochr y de o'r gyffordd â Romily Road, tua'r gogledd-ddwyrain
am oddeutu 17 metr.

Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Windsor Road tua'r dwyrain at ffin gyffredin 13-19
(Mount Sorrel) a 19a am oddeutu 41.5 metr.

Romilly Road, y Barri

Ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Porthkerry Road tua'r de-ddwyrain
am oddeutu 9 metr.

Ar ochr y de-orllewin o'r gyffordd â Porthkerry Road tua'r de-ddwyrain
am oddeutu 11 metr.

Dyddiad: 10 Mehefin 2021.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA